

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/134016/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Foster Evans, Dylan 2020. Cofiannu Caerdydd: ysgrifennu bywydau'r ddinas. Llên Cymru 43 (1) , pp. 53-84. 10.16922/lc.43.3

Publishers page: <http://dx.doi.org/10.16922/lc.43.3>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Cofiannu Caerdydd: Ysgrifennu Bywydau'r Ddinas¹

Yn ei hunangofiant *Gwanwyn yn y Ddinas* (1975), y mae'r bardd a'r llenor Alun Llywelyn-Williams (1913–88) yn datgan yn groyw am gyfnod ei lencyndod cynnar yng Nghaerdydd mai 'Saesneg oedd iaith popeth a ystyriwn yn werthfawr mewn bywyd, yn enwedig fy llyfrau'. Er bod ei rieni yn Gymry Cymraeg a'i feddyg o dad yn mynnu ei fod yn mynychu capel Cymraeg gan wneud 'ei orau glas i'm gwneud ac i'm cadw'n Gymro', prin yr oedd y Gymraeg yn ystyriaeth i'r darpar lenor ieuanc.² Yn wir, er gwaethaf ymdrechion ysbeidiol ei dad o blaid yr iaith ar yr aelwyd, ymylol oedd ei lle ym mywyd Alun: 'Saesneg oedd iaith fy ffrindiau i gyd, hyd yn oed y rhai a âi i'r un capel â mi; Saesneg a siaradwn bob tro â'm brawd â'm chwaer; yn wir, Saesneg oedd iaith yr aelwyd i raddau helaeth iawn, yn anorffod felly gan fod yno gymaint o fynd a dod a chynifer o'n hymwelwyr yn Saeson neu'n

¹ Mae'r erthygl hon yn fersiwn diwygiedig o Ddarlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018, a draddodwyd ar 8 Awst 2018 dan y teitl 'Cofiannu Caerdydd: Bywgraffiadau'r Brifddinas'. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Eisteddfod am fy ngwahodd i draddodi'r ddarlith hon.

² Alun Llywelyn-Williams, *Gwanwyn yn y Ddinas: Darn o Hunangofiant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1975), t. 27. Ar Llywelyn-Williams, gw. ymhellach Gwyn Thomas, *Alun Llywelyn-Williams* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1988); Elwyn Evans, *Alun Llywelyn-Williams, Writers of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1991); Non Indeg Evans, 'Bywyd a gwaith Alun Llywelyn-Williams' (Traethawd PhD, Prifysgol Cymru Bangor, 1996), heb ei gyhoeddi.

dramorwyr'.³ Er hynny, nid yw'r hunangofiant yn awgrymu bod y llanc yn elyniaethus i'r iaith fel y cyfryw. Yn hytrach, mae'r testun yn awgymu mai rhywbeth digon amherthnasol iddo ydoedd, a hynny yng nghyd-destun yr awyrgylch a'r gymdeithas Saesneg a Seisnig a oedd yn nodweddiadol o Gaerdydd cyn yr Ail Ryfel Byd.⁴ Ymhyfrydai'r Alun ieuanc yn ei ddinas enedigol: 'Rown i'n falch o ddinas Caerdydd. Credwn mai hi oedd y ddinas brydferthaf a mwyaf diddorol yn y byd, a breuddwydiwn am ffyrdd i'w gwella a'i harddu fwyfwy a dyrchafu ei bri.'⁵ Ond iddo ef bryd hynny, nid oedd y Gymraeg yn rhan ystyrlon ohoni. Roedd yn rhaid iddo – ac fe fwynhâi – greu gofod iddo'i hun yn y ddinas ar ei thelerau hi, drwy gyfrwng y Saesneg.

Gwahanol iawn yw disgrifiad Elvet Thomas (1905–1994) o'r Gymraeg yn ei blentyndod yntau yng Nghaerdydd yn y blynyddoedd oddeutu'r Rhyfel Byd Cyntaf.⁶ Yn ei hunangofiant *Tyfu'n Gymro* (1972), mae Thomas, un o athrawon Cymraeg mwyaf

³ Ar y tad, sef y Dr David Llewelyn Williams (1870–1949), gw. ysgrif ei fab Alun yn *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1970), t. xx [hefyd ar gael ar-lein: <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-WILL-LLE-1870>, cyrchwyd 1 Mai 2020].

⁴ Am drafodaeth fanwl ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghaerdydd oddeutu ugain mlynedd cyn geni Alun Llywelyn-Williams, gw. Mari A. Williams 'Caerdydd (Sir Forgannwg)' yn Gwenfair Parry a Mari A. Williams (goln), *Miliwn o Gymry Cymraeg! Yr Iaith Gymraeg a Chyfrifiad 1891* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 51–80.

⁵ GDd, t. 31.

⁶ Ar Elvet Thomas, gw. Bobi Jones, "'Take that": teyrnged i W. C. Elvet Thomas', *Barn*, 377 (Mehefin, 1994), 18–19; Geraint Tudur, 'William Clifford Elvet Thomas 1905–1994', *Llên Cymru* 18 (1995), 359–61.

dylanwadol ac ysbrydoledig ei genhedlaeth, yn disgrifio magwraeth ar aelwyd yr oedd y Saesneg wedi ei gwahardd ohoni. Yn sgil '[p]enderfyniad di-ildio' ei rieni i godi eu plant 'yn Gymry Cymraeg mewn lle fel Caerdydd', Cymraeg a siaradai Elvet â'i frawd Arthur wrth chwarae ar y stryd yn ardal Treganna.⁷ Wrth wneud hynny, cafodd brofiad a fu'n ffurfiannol iddo ef a hefyd – maes o law – i nifer o'i ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Cathays:

Un diwrnod, pan oeddwn i tuag wyth oed ac Arthur yn chwech, roeddem yn chwarae yn y stryd ac wrth gwrs yn siarad Cymraeg â'n gilydd. Daeth rhyw fenyw ddiert atom a gofyn i mi, "Were you two talking Welsh?" "Yes", meddwn i. "Well, take that!" meddai hi, gan roi i mi slapen galed ar draws fy moch a wnaeth i mi wegian ar fy nhraed. Wedi hynny cerddodd yn dalog i ffwrdd, gan feddwl, mae'n siŵr, ei bod wedi dysgu gwers i gythraul bach o Gymro. Ac yn wir yr *oedd* wedi dysgu i mi wers hallt. O'r dydd hwnnw, gwyddwn fod gan y Gymraeg ei gelynion ...⁸

Yn ei hunangofiant yntau, cyfeiria Bobi Jones (1929–2017) at y digwyddiad hwn a'r effaith a gafodd arno ef a dau ddisgybl arall a ddysgodd y Gymraeg dan Elvet Thomas ac a aeth rhagddynt i fwynhau gyrfaedd academiaidd disglair, sef Tedi Millward (1930–2020) a Gilbert Ruddock (1938–98).⁹ Yng ngeiriau Bobi Jones, '[o]ni bai am y glatsien honno mae'n bur amheus a fuasai tri ohonom ni ei ddisgyblion byth wedi dod yn ddarlithwyr mewn

⁷ W. C. Elvet Thomas, *Tyfu'n Gymro* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972) [= TG], tt. [9].

Dywed mai anaml y siaradai Saesneg â'i frawd 'hyd yn oed yng nghwmni plant eraill'. Yn sgil cael pryd o dafod gan ei fam wedi iddi glywed y ddau yn siarad Saesneg, dywed 'na bu inni droseddu fyth wedyn', TG, t. 110.

⁸ TG, t. 111.

⁹ Cyhoeddodd Tedi Millward yntau ei hunangofiant, sef *Taith Rhyw Gymro* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2015).

adrannau Cymraeg'.¹⁰ Yn wir, daeth y bonclust yn rhan eiconig o 'chwedl sefydlu' y Gaerdydd Gymraeg fodern (efallai hyd yn oed yn rhan o'i *mythomoteur*¹¹), wrth i un arall o ddisgyblion Elvet Thomas, Geraint Jarman (g. 1950), gyfeirio ati yn ei gân 'Strydoedd Cul Pontcanna':

A'r slap wrth dyfu'n Gymro
sy'n rhwygo'r rhuddin ynddo
cyn troi yn sant
cyn troi yn sant.¹²

Ond nid yr un lle yw'r Gaerdydd Gymraeg y mae Elvet Thomas ac Alun Llywelyn-Williams yn ei llunio yn ei hunangofiannau. Mae'r gydberthynas rhwng testun, pobl, iaith a gofod yn dra gwahanol yn y ddwy gyfrol. Gan hynny, nid bwriad yr erthygl hon yw trafod natur 'profiad Cymraeg' Caerdydd yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif na cheisio canfod hanfod neu 'wirionedd' y profiad hwnnw. Ni fyddaf ychwaith yn pwysu a mesur pa mor gynrychioladol yw hunangofiannau Elvet Thomas ac Alun Llywelyn-Williams (a'r testunau eraill y byddaf yn eu trafod) drwy geisio eu darllen yng ngoleuni testunau neu dystiolaeth ddogfennol amgen, na'u defnyddio i archwilio 'cymeriadau' eu gwrthrychau. Fel y dywed

¹⁰ Bob Jones, *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofiant Tafod* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), t. xx. Sylwer hefyd ar ddefnydd Bobi Jones o'r ymadrodd 'take that' yn ei deyrnged i Elvet Thomas, gw. nodyn 4 uchod.

¹¹ Ar y *mythomoteur*, sef chwedl neu fyth sefydlu sy'n uno grŵp ethnig, cymh. trafodaeth Geraldine Lublin ar hunangofiannau'r Wladfa yn *Memoir and Identity in Welsh Patagonia: Voices from a Settler Community in Argentina* (Cardiff: University of Wales Press, 2017), t. 33.

¹² Geraint Jarman, *Cerddi Alfred Street* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), t. xx.

Cora Kaplan, '[w]hatever one's ethical view of "authenticity" as a gold standard for life writing, it is now an almost clichéd assumption that autobiography and memoir inevitably construct and invent their authors as quasi-fictional characters'.¹³ Yn hytrach, fy mwriad yma yw archwilio'r testunau cofiannol hyn – ac yn arbennig eu hymdriniaethau â magwraeth ddinesig Gymraeg (neu led-Gymraeg) – fel testunau sy'n creu gwahanol fathau o hunaniaethau personol ac ieithyddol oddi mewn i ofod gosmopolitan ac amlieithog y mae'r Saesneg yn brif iaith ynddi. Wrth wneud hynny yn achos Elvet Thomas ac Alun Llywelyn-Williams, rhaid cofio eu bod ill dau yn edrych yn ôl ar eu plentyndod o gyd-destun y 1970au, cyfnod pan oedd yr iaith wedi ei lleoli ym mhrif ffrwd wleidyddol yr oes mewn modd a fyddai wedi bod yn anodd ei ddychmygu hanner canrif ynghynt.¹⁴ Gan hynny, testunau sy'n perthyn i draean olaf yr ugeinfed ganrif yw *Tyfu'n Gymro* a *Gwanwyn yn y Ddinas*, er eu bod yn (ail-)greu bywyd dwy genehedlaeth yn gynharach. Er y gwahaniaethau rhyngddynt, maent yn blaendirio iaith mewn cyd-destun dinesig ond hefyd yn dieithrio'r profiad hwnnw trwy ei wrthgyferbynnu â bywyd 'Y Fro Gymraeg', a defnyddio term a fyddai'n gyfarwydd yn y 1970au ond nid hanner canrif ynghynt. Ac erbyn heddiw, ar drothwy trydydd degawd yr unfed ganrif ar hugain, gellid dadlau bod eu hymateb disgyrsaidd i gymysgrywedd ieithyddol cyfnod plentyndod yn ystyrlon i drwch siaradwyr ifanc y Gymraeg.

Byddaf yn dadlau, gan hynny, fod modd darllen testunau (hunan)gofiannol o Gaerdydd fel 'naratifau ieithyddol' – naratifau y mae perthynas eu gwrthrychau ag iaith yn

¹³ Cora Kaplan, *Victoriana: Histories, Fictions, Criticism* (Edinburgh: Edinburgh University Press 2007), t. 65. Gw. hefyd sylwadau Roberts, "'Mawrhau ei swydd'", t. 111.

¹⁴ Ar wahanol agweddau ar y newidiadau hyn, gw. Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000).

greiddiol i'w hadeiladwaith. Yn wir, gellir eu deall yn fwy penodol fel 'hunangofiannau ieithyddol' mewn modd sy'n pontio beirniadaeth lenyddol a sosioieithyddiaeth, ac yn hynny o beth yn destunau y mae modd eu gosod yng nghyd-destun dealltwriaeth ehangach o amrywio ieithyddol a'r ymateb iddo.

Cofiannu, ysgrifennu bywyd ac iaith

Hunangofiannau yw *Tyfu'n Gymro* a *Gwanwyn yn y Ddinas*, y ddau destun a fydd yn derbyn trwch y sylw yn yr erthygl hon. Maent yn weithiau llenyddol y gellir eu gosod yng nghategori ehangach 'ysgrifennu bywyd' ('life writing' yw term Kaplan uchod), sef ysgrifennu sy'n ymwneud â chofnodi, mynegi ac archwilio profiadau bywyd, boed y rheini'n brofiadau allanol neu fewnol neu – yn fwy cyffredin – y ddau. Yng ngeiriau Zachary Leader, '[l]ife writing is a generic term used to describe a range of writings about lives or parts of lives, or which provide materials out of which lives or parts or lives are composed'.¹⁵ Tan yn ddiweddar, digon cyfyng fu'r diddordeb beirniadol yn y maes hwn, ac ystyrid ysgrifennu bywyd yn eilaidd os nad yn eilradd o'i gymharu â ffurfiau llenyddol ffuglenol, megis y nofel a'r stori fer.¹⁶ Gellir dadlau, er enghaifft, mai fel ffynhonnell eilaidd ar gyfer dehongli barddoniaeth Alun Llywelyn-Williams y darllenwyd *Gwanwyn yn y Ddinas* yn bennaf hyd

¹⁵ Zachary Leader (gol.), *On Life Writing* (Oxford: Oxford University Press), t. 1.

¹⁶ O safbwynt y Gymraeg yn negawdau olaf yr ugeinfed ganrif, gellir nodi'r trafodaethau hyn: Dafydd Glyn Jones, 'Tueddiadau yn ein llên ddiweddar', *Y Traethodydd*, 127 (1972), 171–86; John Gwilym Jones, 'Hunangofiant fel Llenyddiaeth', *Swyddogaeth Beirniadaeth* (Dinbych: Gwasg Gee, 1977), tt. 182–98; Meirlys Lewis, 'Hunanbortreadaeth, Hunangofiant a Phroblemau Esthetig', *Efrydiau Athronyddol*, 58 (1995), 46–57.

yma.¹⁷ Fodd bynnag, mae bri newydd ar ysgrifennu bywyd yn y cyfnod diweddar hwn er bod – neu oherwydd bod – y ffin rhyngddo a llenddulliau ‘ffuglenol’ yn gynyddol anelwig.¹⁸ Gwelir hynny’n glir yn y cyfuniad o gofiannu, ysgrifennu taith, dyddiaduron a lluniau a geir gan Llŷr Gwyn Lewis yn *Rhyw Flodau Rhyfel* (2014), a’r cyfuniad o ysgrifennu chwaraeon, dyddiadur personol a dadansoddiad academiaidd ac anacademiaidd o fywyd beunyddiol yn y Fro Gymraeg a geir yn *Adra: Byw yn y Gorllewin Cymraeg* (2018) gan Simon Brooks.¹⁹ Yn *Pygiana ac Obsesiynau Eraill* (2014), mae Mihangel Morgan yntau’n ymwrthod â *genre* yr hunangofiant traddodiadol, ond eto’n awgrymu’n glir y dylid darllen y testun fel math o ysgrifennu bywyd: ‘Nid yw’n fwriad gennyf i ysgrifennu hunangofiant nac atgofion byth – pwy fyddai’n dymuno darllen am fy mywyd anniddorol i? – ond mae pob casgliad, pob darn o waith celf sydd wedi fy hudo, ambell ffilm a sawl ffotograffydd a llenor sydd wedi fy nghyfareddu, yn rhan o hanes fy mywyd.’²⁰

Er hynny, digon prin yw’r astudiaethau ar ysgrifennu bywyd yn y Gymraeg. Bu mwy o weithgaredd beirniadol yn Iwerddon, ac y mae gwaith unigolion fel Máirín Nic Eoin a Bríona Nic Dhiarmada ar destunau Gwyddeleg yn gwahodd cymariaethau â’r Gymraeg.²¹

¹⁷ Gw. y ffynonellau a nodwyd yn nodyn 2 uchod.

¹⁸ Am drafodaethau cyffredinol, gw. Leader (gol.), *On Life Writing*; Hermione Lee, *Biography: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2009); Linda Anderson, *Autobiography* (ail argraffiad, London: Routledge, 2011).

¹⁹ Llŷr Gwyn Lewis, *Rhyw Flodau Rhyfel* (Talybont: Y Lolfa, 2014); Simon Brooks, *Adra: Byw yn y Gorllewin Cymraeg* (Talybont: Y Lolfa, 2018).

²⁰ Mihangel Morgan, *Pygiana ac Obsesiynau Eraill* (Talybont: Y Lolfa, 2014), t. xx.

²¹ Máirín Nic Eoin, ‘Twentieth-Century Gaelic Autobiography: From *lieux de mémoire* to Narratives of Self-invention’, yn Liam Harte (gol.) *Modern Irish Autobiography: Self,*

Ond er mor atyniadol yw hynny yng nghyd-destun dwy iaith Geltaidd, erys gwahaniaethau sylfaenol. Fel y dywed Nic Dhiarmada, bu'r berthynas rhwng y llafar a'r llenyddol yn ystyriaeth greiddol i feirniaid llenyddol Gwyddeleg, yn sgil y ffaith fod rhai o'r awduron amlycaf yn byw mewn gofod a oedd yn cwmpasu 'both a traditional oral culture and a culture that was attuned to the literary, insofar as it enabled individuals to become authors of their own life stories'. Nid yw hon yn ystyriaeth sy'n agos mor berthnasol i hunangofiannau Cymraeg yr ugeinfed ganrif: diwylliant a gymerai ei gwedd lenyddol a llythrennog yn hollol ganiataol yw hwnnw a gyflwynir yn *Tyfu'n Gymro* a *Gwanwyn yn y Ddinas* ac mae'r olaf yn arbennig wedi ei fritho gan gyfeiriadau llenyddol. Ond mae rhybudd Nic Dhiarmada ynghylch y modd y mae hunangofiannau Gwyddeleg yn cael eu dibrisio gan feirnidaeth sy'n dibynnu ar 'extra-textual criteria' ac sy'n cwestiynu eu llenyddoldeb yn berthnasol i ninnau hefyd.²²

Anghywir fyddai awgrymu bod y maes yn hesb yma yng Nghymru, ond mae'n drawiadol fod astudiaethau diweddar ar ysgrifennu bywyd yn y Gymraeg wedi ymwneud â gofodau sydd yn estron neu o leiaf yn newydd i'r Gymraeg – gellir derbyn neu wrthod y ddadl fod Caerdydd yn lleoliad sydd yn rhannol y categori hwnnw. Mae gwaith Diarmait Mac Giolla Chríost ar naratifau yn ymwneud â charcharu gwleidyddol ac eiddo Geraldine Lublin ar hunangofiannau (Cymraeg a Sbaeneg) o Chubut wedi archwilio profiadau nad

Nation and Society (Palgrave Macmillan, London, 2007), tt. 132–55; Bríona Nic Dhiarmada, 'Irish-Language Autobiography', yn Liam Harte (gol.), *A History of Irish Autobiography* (Cambridge: Cambridge University Press, 2018), tt. 225–40.

²² Nic Dhiarmada, 'Irish-Language Autobiography', t. 240.

dynt yn perthyn i gymunedau Cymraeg ‘traddodiadol’.²³ Er hynny, mae’n wir fod gwreiddiau teuluol nifer o’r awduron yn astudiaeth Lublin yn ddyfnach yn y Wladfa nag y mae gwreiddiau yr awduron y byddaf i yn eu trafod yn nhir Caerdydd – mae’r rheini oll yn perthyn i’r genhedlaeth gyntaf neu’r ail genhedlaeth o drigolion y ddinas. Mae’r newydd-deb hwnnw a’r ymdeimlad o fod yn perthyn i’r genhedlaeth gyntaf yn eu teuluoedd i wynebu magwraeth ddinesig yn rhywbeth a rennir gan bob un o’r testunau y byddaf yn eu trafod.

Un rheswm amlwg am y tawelwch cymharol ynghylch ysgrifennu hunangofiannol yw’r ffaith, o safbwynt hanesyddol, mai’r cofiant rhagor na’r hunangofiant fu prif ffurf ysgrifennu bywyd yn y Gymraeg.²⁴ Cysylltir y term hwn yn arbennig â chofiannau gweinidogion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a’u teitlau weithiau hefyd yn arddel termau megis ‘buchdraeth’ neu ‘fuchedd-draeth’, gan led awgrymu cyswllt a naratifau crefyddol cynharach, sef bucheddau’r saint canoloesol.²⁵ At ei gilydd, nid ystyrir cofiannau Oes Fictoria yn gampweithiau llenyddol gan y tybir eu bod yn rhy bregethwrol a fformiwläig, er i Saunders Lewis geisio achub cam y *genre* yn arbennig yng nghyd-destun *Cofiant John Jones*

²³ Diarmait Mac Giolla Chríost, *Welsh writing, political action and incarceration: Branwen's starling* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2013); Lublin, *Memoir and Identity in Welsh Patagonia*.

²⁴ Teg dweud mai Saunders Lewis a agorodd y maes hwn drwy gyfrwng ei erthygl ‘Y Cofiant Cymraeg’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1935, 157–73; fe’i hailgyhoeddwyd yn *Meistri’r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Guffydd (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1983), tt. 341–56. Dyfynnir yma o fersiwn gwreiddiol yr erthygl.

²⁵ Prin oedd y cyswllt mewn gwirionedd, gw. Lewis, ‘Y Cofiant Cymraeg’, 158.

Talsarn gan Owen Thomas: ‘coron y cofiant yng Nghymru’.²⁶ Er nad ydynt yn dilyn patrwm mewn modd mor gaeth â thrwch y cofiannau crefyddol, y mae’r hunangofiannau yr wyf am eu trafod yma hwythau yn destunau digon confesiynol ac maent yn cyflwyno naratifau sy’n bennaf cronolegol ac sy’n arwain y darllenydd drwy wahanol gyfnodau ym mywydau cynnar eu gwrthrychau.

Yn wir, roedd Alun Llywelyn-Williams ei hun yn ddigon amheus o werth llenyddol ysgrifennu bywyd, gan ddadlau bod y cofiannydd yn ‘byw ar greadigaethau dynion eraill’ ac nad oedd felly’n llenor creadigol yng ngwir ystyr y gair.²⁷ Teimlai fod yr hunangofiant ar dir celfyddydol uwch yn sgil ei berthynas agosach â ‘gwir di-goll’ y llenor, ond nid oedd yr hunangofiant ychwaith i’w gyfrif ymhlith *genres* mwyf dyrchafedig ein llenyddiaeth.²⁸ Mae is-deitl *Gwanwyn yn y Ddinas – Darn o Hunangofiant* – yn cyfleu’r ffaith nad yw’r gyfrol yn mynd y tu hwnt i 1940 (pan ymrestrodd yr awdur yn y fyddin), ond mae hefyd yn rhyw awgrym mai darn – os nad dernyn – yw’r gwaith yn hytrach na chyfanwaith mwy sylweddol. At hynny, mewn rhagair byr y mae Llywelyn-Williams eto’n pwysleisio natur dameidiog y gwaith trwy nodi bod tri darn cynharach (‘parts of lives’, chwedl Leader uchod) wedi eu hail-dddefnyddio wrth ysgrifennu’r gyfrol. Cyfeiria at un ohonynt, a luniwyd ar gyfer y gyfres

²⁶ Lewis, ‘Y Cofiant Cymraeg’, 172. Am astudiaeth fwy diweddar, gw. Llion Pryderi Roberts, “‘Mawrhau ei swydd’: Owen Thomas, Lerpwl (1812–91) a chofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg’ (Traethawd PhD Prifysgol Caerdydd, 2011),, heb ei gyhoeddi.[Ar-lein]. Ar gael: <http://orca.cf.ac.uk/54481/1/U584582.pdf>; cyrchwyd 1 Mai 2020.

²⁷ Alun Llywelyn-Williams, ‘Bywgraffiad fel creadigaeth lenyddol’, yn Geraint Bowen (gol.), *Ysgrifennu Creadigol* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972), t. 140.

²⁸ Ibid., t. 141.

radio *Y Llwybrau Gynt*, fel ‘sgwrs fywgraffyddol’ gan nodi mai honno oedd ‘symbyliad y llyfr hwn’ (yn hytrach nag unrhyw ysfa greadigol); cyfeirir at ran arall yr hunangofiant yn ddigon ffwrdd-â-hi fel ‘gweddill y llyfr’.²⁹

Ond ar y cyd â’r agwedd ymddangosiadol ysgafala at ei waith ei hun, mae Llywelyn-Williams, fel yr awgrymwyd eisoes, yn cyflwyno haenen o lenyddoldeb hunanymwybyddol i’r gwaith, drwy sôn fod rhan olaf y gyfrol yn ‘cyflawni drych fy mhrif oesoedd’ a thrwy osod y pennawd ‘Mabinogi’ ar yr adran sy’n trafod ei blentyndod.³⁰ Mae’r cyfeiriad at y Pedair Cainc, ac yn arbennig at *Drych y Prif Oesoedd* (1716 a 1740) gan Theophilus Evans, yn adlewyrchu addysg Llywelyn-Williams ei hun a hefyd natur ei gynulleidfa ragdybiedig. Fel y nododd Robin Chapman, mae *Gwanwyn yn Ddinas* yn perthyn i gategori o hunangofiannau o hanner canol yr ugeinfed ganrif sydd ‘ar batrwm *Clych Atgof* (1906) Owen Morgan Edwards, a’i bwyslais ar adrodd hanes bywyd drwy ddrych dylanwadau ffurfiannol plentyndod ac addysg’ ac a luniwyd ‘gan raddedigion (bron yn ddieithriad) a adwaenid yn bennaf fel llenorion’.³¹ Llenor ymwybodol a chydabyddedig yw awdur *Gwanwyn yn y Ddinas* ac mae’r hunangofiant yn gwahodd y darllenydd i’w ystyried yn rhan o *œuvre* yr awdur hwnnw.

Gwahanol yw gwaith Elvet Thomas. Nid oedd yn llenor fel y cyfryw, er ei fod wedi cyhoeddi mewn sawl maes. Ac ar yr olwg gyntaf ni ellir ychwaith ei osod yn ail gategori Chapman o hunangofiannau, sef y rhai a luniwyd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif gan “[b]obl gyffredin” mewn oed yn disgrifio bywyd mewn cymunedau Cymraeg a ystyrid

²⁹ GDd, t. [6].

³⁰ GDd, tt. [6] a [7].

³¹ Robin Chapman, ‘Hunangofiant’. Esboniadur Beirniadaeth a Theori y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. [Ar-lein]. Ar gael: <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Hunangofiant>, cyrchwyd 1 Mai 2020.

erbyn hynny fel rhai a oedd ar ddarfod'.³² Ond tybed? Er bod ganddo broffil cenedlaethol fel addysgwr, mae Elvet Thomas heb amehuaeth yn disgrifio cymuned Gymraeg a oedd – o'i safbwynt ef – ar ddarfod. Yn fwy na hynny, yr oedd hon yn gymdeithas Gymraeg a ddylai ddarfod, yr oedd yn *rhaid* iddi ddarfod, ac eithrio yn achos y cadwedig rai a allai ddangos y ffordd i fyd gwell. O'r cychwyn cyntaf, mae hon yn gyfrol sy'n cyfleu dicter ynghylch sefyllfa'r iaith Gymraeg ac sy'n cynnwys beirnaidaeth lem ar gymdeithas yr oes, ac yn arbennig y 'gyfundren addysg felltgedig – "y peiriant mwrddro cenedlaethol", a wadai unrhyw statws i'r iaith.³³ Ond cedwir y condemnio mwyaf cignoeth ar gyfer y Cymry Cymraeg hynny yng Nghaerdydd na welent ddyfodol na phwrrpas i'r iaith mewn cyd-destun dinesig ac a oedd felly yn eu tyngedu eu hunain i ddifodiant. Ac yn hyn o beth mae Elvet Thomas yn unfryd unfarn â'i rieni:

Yn fuan wedi dod i fyw yng Nghaerdydd tua diwedd 1905 dywedai rhai o grach-Gymry taeogaidd Caerdydd – ac yr oedd digon ohonyn yn adeg honno, beth bynnag am yn awr – mai ffwlbri oedd meddwl am godi plant yn Gymry Cymraeg mewn lle fel Caerdydd. Ychydig a wyddai'r rhai gwasaid hyn am benderfyniad di-ildio fy rheini a chadernid di-syfl fy mam ar faterion a oedd iddynt hwy yn egwyddorion sylfaenol.

Wrth ddweud hyn mae'n nodi bod ei fam wedi gorfod ymladd i wireddu eu hegwyddorion mewn cymdeithas dra gwahanol i'r un y byddai cenedlaethau iau nag ef yn gyfarwydd â hi: 'yn y dyddiau hynny, pan nad oedd sôn am ysgolion Cymraeg nac Urdd nac Aelwyd, a phan nad oedd ond ychydig o lyfrau Cymraeg diddorol i blant, fe lwyddodd hi, gyda chymorth

³² Chapman, 'Hunangofiant'.

³³ TG, t. 11.

brwdfrydig fy nhad, i'n codi'n Gymry Cymraeg'.³⁴ Wrth gwrs, mynychai Elvet a'i frawd gapel Cymraeg, gan ddod i adnabod '[C]ymry glew capeli Cymraeg Caerdydd', a hefyd eisteddfodau a fu'n 'ffordd dda o rymuso ein Gymraeg'.³⁵ Ond ni allai hynny ynddo ei hun guddio'r prydredd a oedd yn dân ar groen ei rieni. Ar adegau, byddai tad Elvet yn 'saethu ei wawd [...] at y Cymry yng Nghaerdydd na fynnent i'w plant ddysgu Cymraeg. Gallwn enwi dwsinau a elwid gan fy nhad – ar uchaf ei lais – yn fradwyr i Gymru, a gallai fod yn waeddwyr heb ei ail pan oedd yn yr "hwyl". Cyflwynir yr angerdd hwn mewn ieithwedd grefyddol, a chyfiawnheir iaith eithafol y tad a'i ddefnydd o eiriau fel 'bradwr' a 'thaeog' drwy nodi ei gred 'mai'r unig ffordd, weithiau, i ennill gwaredigaeth i ambell enaid cywilyddus yw ei alw wrth yr enw cywilyddus hwnnw'.³⁶ Roedd y tad fel pregethwr o ddiwygiad 1904–05 yn ceisio ennill eneidiau i'w gorlan.

Gwelir felly fod hunangofiant Elvet yn dysteb i'r rhai a lwyddodd – yn ei farn ef – i chwalu Cymreictod difaol dechrau'r ugeinfed ganrif. Trwy gydol y gyfrol, mae'n tafoli perthnasau a chydabod eraill yn nhermau eu hymroddiad – neu beidio – i'r iaith, gan drafod a yw eu disgynyddion hyd heddiw yn medru'r Gymraeg. Dyna yw'r ffon fesur ar gyfer pennu cymeriad, a'r unig eithriad amlwg – a achubir rhag condemniad yn sgil ei safbwyntiau gwleidyddol – yw ei athro yn y Ganolfan Disgybl-Athrawon, Charles Morgan, y dywedir amdano 'er na chlywais ef yn siarad Cymraeg roedd yn amlwg i mi ar unwaith fod hwn yn Gymro gwlatgar' a'i wraig, na allai hyd yn oed Elved Thomas fod yn siŵr a siaradai hi Gymraeg.³⁷

³⁴ TG, t. [9].

³⁵ TG, t. 59.

³⁶ TG, t. 59.

³⁷ TG, t. 149.

Gan dderbyn hynny, mae'r glir fod modd diffinio hunangofiant Elvet Thomas fel 'naratif ieithyddol'. Nid syndod hynny o ystyried y teitl – *Tyfu'n Gymro* – a'i sylw ym mharagraff olaf y gwaith ei fod – wrth gyrraedd Adran y Gymraeg Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd, a chael cwmni llawer o gyfoeswyr Cymraeg eu hiaith am y tro cyntaf yn ei fywyd, a chael dysgu wrth draed yr Athro W. J. Gruffydd a'r Athro G. J. Williams – o'r diwedd 'wedi tyfu'n Gymro'.³⁸ Ac mewn ffordd wahanol naratif ieithyddol yw *Gwanwyn yn y Ddinas* hefyd. Mae'r ddau awdur yn cyflwyno eu Cymreictod fel proses neu weithredoedd: 'tyfu' yw term Elvet Thomas, tra bo Llywelyn-Williams yn sôn am ymdrechion ei dad i'w 'wneud' a'i 'gadw' yn Gymro. Symbyliad mewnol sydd i Elvet Thomas – sylw rhyfedd efallai o feddwl am unplygrwydd os nad eithafiaeth ei rieni ar y pwnc a'r ffaith na fyddent yn derbyn iddo siarad Saesneg. Ond mae Elvet yn deall eu prosiect ac yn cyd-fynd â'i amcanion. Penbleth, ar y llaw arall, oedd ymateb yr Alun Llywelyn-Williams ifanc i farn ei dad am yr iaith:

A dyna oedd yn od yn fy Nhad, fel y tybiwn i. 'Roedd ei ymlyniad wrth yr iaith Gymraeg yn fater o egwyddor ddall, neu felly yr ymddangosai. Ond 'doedd ganddo ddim diddordeb yn y diwylliant llenyddol Cymraeg, am y rheswm, fel y tybiwn i ar y pryd, nad oedd yna'r ffasiwn beth [...] Ond ar wahân i bapur wythnosol ei enwad, 'doedd dim sôn ar ein haelwyd ni am gylchgronau Cymraeg o unrhyw fath hyd nes y daeth *Y Ford Gron* allan yn y tridegau. 'Welais i erioed mo'r *Llenor* na'r *Traethodydd* gartref. A fyddai fo byth yn darllen barddoniaeth. Wel, pam y dylai? Ond wedyn canlyniad y diffyg diwylliant llenyddol Cymraeg yn fy Nhad a'm Mam, oedd nad oedd ganddyn-nhw ddim ohono i'w drosglwyddo i'w plant.³⁹

³⁸ TG, t. 150.

³⁹ GDd, t. 28.

Roedd y Gymraeg yn peri dryswch i Alun Llywelyn-Williams, fel egwyddor a hefyd i raddau ar lefel ieithyddol, a'r aelwyd, fel y nodwyd eisoes, yn bennaf Saesneg. Ond nid oedd y Saesneg yn heriol na phroblemataidd i Elvet Thomas. Noda iddo godi'r iaith honno yn ddigon didrafferth, a hyd yn oed wrth gyrraedd yr ysgol am y tro cyntaf yn blentyn pum mlwydd oed, 'yn Gymro bach uniaith, yng nghanol haid o Saeson [...] nid wyf yn cofio i mi deimlo unrhyw chwithdod am na allwn ddeall iaith y plant eraill'. Ac wrth ymweld â Sir Benfro roedd Elvet 'yn peri tipyn o syndod i'r teulu am fy mod yn gallu darllen Cymraeg a Saesneg'. Syndod i'r bachgen bach oedd canfod nad oedd ei berthnasau 'wedi breuddwydio y gallwn, yn chwech oed, ddarllen y ddwy iaith yn hawdd'. Roedd ei fagwraeth yng Nghaerdydd wedi ei gynysgaeddu â baint y Saesneg, rhywbeth nad yw Elvet yn ei gydnabod fel y cyfryw ond sy'n dod yn amlwg wrth iddo ymweld â chymuned lle '[a]naml y clywid gair o Saesneg'.⁴⁰

Er mwyn deall sut mae Alun Llywelyn Williams yn cyflwyno ei naratif ieithyddol yntau, buddiol yw craffu ar y modd y mae'n cyflwyno'r Gymraeg yn *Gwanawyn yn y Ddinas* am y tro cyntaf. Ni wneir hynny â bombast hwyliog Elvet Thomas, ond yn hytrach fe'i gwneir mewn modd tawel ond trymlwythog, a hynny wrth gynnig disgrifiad o'i fam. Dywed ei bod hi'n 'addfwynach cymeriad, yn bersonoliaeth lonyddach' na'i dad.⁴¹ Ond awgrym Alun Llywelyn-Williams yw nad oedd hi mor gyffyrddrus yn y ddinas amlddiwylliannol â'i mab. Dywed ei bod yn swil ac yn amharod i gymysgu, hyd yn oed â'i chymdogion (y mae'r portread ohonynt yn dangos cryn ôl ystrydeb): '[t]eulu o Wyddelod swnllyd, ysgafala, ar un ochr i ni a chonswl gwlad Chili ar yr ochr arall, ef a'i wraig lygatddu ddanjerus a heidiau dirifedi, i bob golwg, o blant anystywallt ymhob man'. Merch i siopwr llwyddiannus yn y

⁴⁰ TG, t. 116.

⁴¹ GDd, t. 14.

gogledd oedd mam Alun Llywelyn-Williams, a 'dim byd gwladaidd' yn ei chylch, chwedl yntau. 'Moesau dosbarth canol oes Victoria oedd ei moesau hi', meddai 'ac er bod ei Chymraeg yn rhugl ac yn gwbl ddileidiaith, byddai'n ofalus na cheid fyth arlliw o acen Gymreig ar ei Saesneg. Wrth feddwl, 'welais i erioed moni'n darllen Cymraeg'.⁴² A dyma'r Gymraeg yn codi ei phen am y tro cyntaf, yng nghanol awgrymiadau ynghylch lletchwithdod cymdeithasol, amlddiwylliannedd dieithr, moesau dosbarth canol, gwladeidd-dra, a Saesneg heb fod arni ôl yr heniaith. Yn gynnil iawn, mae Alun Llywelyn-Williams yn cyflwyno'r Gymraeg mewn modd sy'n datgelu ei statws ymylol yn y ddinas fawr.

Er bod Saesneg Alun Llywelyn-Williams mor naturiol ag eiddo Elvet Thomas, nid felly ei Gymraeg. Mewn cyfweliad â Gwyn Thomas yn 1971 mynegodd ei bryderon am ei afael ar yr iaith:

O'm rhan fy hun, rwy'n tueddu i gredu mai'r anfantais fwyaf a brofais i'n bersonol yw'r teimlad nad wyf erioed wedi llwyddo i feistrolï'r iaith Gymraeg fel cyfrwng mynegiant cwbl naturiol. Hyd yn oed i'r llenor uniaith, mae llenyddda'n frwydr barhaus â'r iaith, ond gan mai yn Saesneg y dechreuais i sgrifennu a chan fy mod o raid yn siarad ac yn darllen llawer mwy o Saesneg nag o Gymraeg, 'dydw i ddim wedi cael gwared â'r ymdeimlad fy mod wrth sgrifennu yn Gymraeg yn gorfod ymdrechu'n rhy galed, a bod yr ymdrech yn ei dangos ei hun.⁴³

Trafod ymdeimlad a wna Llywelyn-Williams yma yn hytrach na ffaith wrthrychol am ei ysgrifennu, a gellid gofyn a yw olion ymdrech o'r fath ar ddarn o gelfyddyd yn ddrwg o beth bob amser. Sylwer bod M. Wynn Thomas yn dadlau bod mynegiant ei waith cynnar yn 'fwriadus o anwastad' ac y ceir yr argraff fod y farddoniaeth 'yn gymysgedd, yn pastiche, o

⁴² GDd, t. 15.

⁴³ Gwyn Thomas yn holi Alun Llywelyn-Williams, *Mabon* 1:4 (Gwanwyn 1971), 15.

ddulliau Cymraeg a dulliau Saesneg o ymadroddi'.⁴⁴ Ond mae'r ymwybyddiaeth ac ansicrwydd am ei Gymraeg a'r ffaith nad oedd ganddo dafodiaith gydnabyddedig yn sgil cael ei fagu y tu allan i gymunedau 'naturiol' Gymraeg yn thema gyson yn *Gwanwyn yn y Ddinas*, boed wrth iddo gael trafferth deall yr oedfa neu wrth weithio'n ddiweddarach ym maes darlledu.⁴⁵

Fel yr awgrywyd eisoes, wrth ddadlau y gallwn ddarllen y ddau hunangofiant hyn fel naratifau ieithyddol, nid wyf yn awgrymu eu bod yn gynrychiadol o sefyllfaoedd ieithyddol ehangach. Rhaid ymwrthod â'r duedd a fu'n amlwg tan yn ddiweddar i ddarllen hunangofiannau fel ffenestr ar gyfnod hanesyddol penodol, neu fel lens sy'n caniatáu gweld mewn modd mwy personol yr hyn y mae astudiaethau hanesyddol traddodiadol eisoes wedi ei ganfod. O wneud hynny, rhaid i'r astudiaeth hanesyddol gael y flaenoriaeth, ac ni ellir troi at y bywgraffyddol oni bai ei fod yn gynrychioladol o batrymau ehangach sydd eisoes wedi eu sefydlu. Fel y dywed Mark Gamsa am y dull diffygiol hwn o darllen, 'the underlying logic was that single lives were not sufficiently *representative*; and only lives that were representative could be used for historical purposes'.⁴⁶ Dyna yw ysbryd sylwadau Saunders Lewis pan ddywed fod y cofiant 'yn gymaint drych i'r gymdeithas Gymreig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ag ydyw'r emyn yn y ddeunawfed ganrif neu'r cywydd yn y

⁴⁴ M. Wynn Tomas, 'Caethiwed Barnwen: Agweddau ar Farddoniaeth Alun Llywelyn-Williams', *Cyfan-dir Cymru: Ysgrifau ar Gyfannu Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017), t. 108. Sylwer hefyd fod Thomas yn gosod Llywelyn-Williams, Pennar Davies a Waldo Williams a dan y pennawd 'Tri Dysgwr', t. 91.

⁴⁵ *GDD*, tt. 25–6 a 146.

⁴⁶ Mark Gamsa, 'Biography and (Global) Microhistory', *New Global Studies*, 11.3 (2017), 232.

bymthegfed'.⁴⁷ Gwelir mai cynrychioli neu adlewyrchu cymdeithas a wna'r cofiannau yn ôl y dull hwn o feddwl. Wrth ddefnyddio trosiad y drych, mae Saunders yn diddymu rôl ffurfiannol y cofiannau; tuedda i'w gweld yn adlewyrchu yn hytrach nag yn cyfrannu at lunio neu ail-lunio'r gymdeithas y maent yn deillio ohoni. Gwendid arall y dull hwn o feddwl yw ei fod, fel y noda Gamsa, yn tynnu'n groes i'r modd y mae unigolion yn eu hystyried eu hunain. Wrth ysgrifennu, nid ydynt yn synio amdanynt eu hunain fel unigolion sy'n gynrychioladol a nodweddiadol o drwch y bobl o'u cwmpas. I'r gwrthwyneb, yn ein diwylliant gorllewinol ni, fe'n gwelwn ein hunain, beth bynnag ein cefndir, fel unigolion â chymeriadau a hunaniaethau cymhleth, amlweddog, ac yn fwy na dim, unigryw.⁴⁸ Ac mae unigrywedd ymwybodol eu profiadau yn nodwedd amlwg o'r modd y mae Elvet Thomas ac Alun Llywelyn-Williams yn cyflwyno eu plentynod. Nid ydynt yn awgymru na cheisio cynrychioli dosbarth neu genhedlaeth, ac nid ydynt yn hawlio neu'n honni eu bod mewn unrhyw ffordd yn nodweddiadol.

Naratifau ieithyddol cynharach Caerdydd

Er eu hunigrywedd, nid oedd Elvet Thomas ac Alun Llywelyn-Williams, wrth lunio hunangofiannau am y Gymraeg yng Nghaerdydd, yn agor cwysi cwbl newydd. Bu eraill o'u blaenau'n llunio bywydau Cymraeg yn y ddinas. Un o'r testunau mwyaf cyfoethog yn hyn o beth yw *The Life I Have Loved* (1940), hunangofiant Saesneg yr athro canu a'r arweinydd corau Clara Novello Davies (1861–1943).⁴⁹ Ysgrifennwyd yr hunangofiant hwn gyda golwg

⁴⁷ Lewis, 'Y Cofiant Cymraeg', 157.

⁴⁸ Gamsa, 'Biography and (Global) Microhistory', 232.

⁴⁹ Clara Novello Davies, *The Life I Have Loved* (London: William Heinemann, 1940) [= LIHL]. Am grynodedb o'i bywyd, gw. ysgrif Roberts David Griffith yn *Y Bywgraffiadur*

arbennig ar berthynas Clara Novello â'i mab Ivor (Ivor Novello, 1893–1951), yr actor a'r cyfansoddwr a oedd yn un o ffigyrau enwocaf maes adloniant yn hanner cyntaf yr ugeinfed garif. Ond er hynny, ac er bod y gynulleidfa ar gyfer y gyfrol hon yn pontio Prydain, America a thu hwnt (megis yn wir y gwnaeth gyrfa Clara Novello ei hun), rhoddir cryn sylw i'r bywyd Cymraeg a oedd wedi ei ganoli ar ddau o gapeli'r Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg yng Nghaerdydd: Salem (Canton) a Bethania (Docks), a defnyddio terminoleg ddaearyddol yr oes.⁵⁰

Mae gwaith Clara Novello yn bwrw golwg unigryw – ac o bersbectif benywaidd – ar capeli Cymraeg Caerdydd yn Oes Fictoria. I ryw raddau – ac yn ddjarwybod, efallai – mae rhannau o *The Life I Have Loved* fel petaent yn ymateb i sylwadau a geir mewn testun sydd, er ei deitl, yntau hefyd yn cynnwys peth ysgrifennu hunangofiannol: *Dinas Caerdydd a'i Methodistiaeth Galfinaidd* gan y Parch. Thomas Bowen (1927). Mae Bowen yn nodi mai '[u]n o ddiffygion aml yr hanes yma yn ddiau yw'r ffaith fod yr awdur wedi anwybyddu'r lle

Cymreig 1941–1950 (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1970), t. xx [hefyd ar gael ar-lein: <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-DAVI-NOV-1861>, cyrchwyd 1 Mai 2020]. Am astudiaethau llawnach mewn cyd-destun Cymreig, gw. yn arbennig Gwawr Jones, “‘The mighty Mam’: Clara Novello Davies a byd cerddoriaeth broffesiynol yng Nghymru”, (Traethawd PhD Prifysgol Bangor, 2015), heb ei gyhoeddi; Rachel Barlow, “‘The Queen was Pleased’: Clara Novello Davies and the Royal Welsh Ladies’ Choir, 1883–1900”, yn ‘The “Land of Song”: Gender and Identity in Welsh Choral Music, 1872–1918’, tt. 148–187. (Traethawd PhD Prifysgol Caerdydd, 2015), heb ei gyhoeddi. [Ar-lein.] Ar gael: <http://orca.cf.ac.uk/91290/1/2016barlowrphd.pdf>; cyrchwyd 1 Mai 2020.

⁵⁰ Ar hanes capel Salem, gw. Richard Hall Williams a D. Haydn Thomas, *Hanes Salem Canton, Caerdydd o 1856 hyd 2000* (Caerdydd: Eglwys Salem, Canton, 2001).

a lanwodd y chwiorydd ynddo. Bu iddynt le amlwg yn ddiau, a buont o wasanaeth amhrisiadwy ar hyd y blynyddoedd [...] Y gwir yw nad oedd odid un a allwn ddywedyd iddi sefyll allan yn fwy amlwg nag eraill.’ Gellid awgrymu na rwystrodd hynny ef rhag cyfeirio at gyfraniad rhai o’r dynion yn y gyfrol, ond mae Bowen yn cydnabod mai diffyg cymhellant gan yr eglwysi eu hunain a oedd yn gyfrifol am brinder cyfleoedd i fenwyod: ‘Hyd yn hyn ni ddewiswyd unrhyw chwaer i swyddau pwysicaf eglwysi Caerdydd, nid oblegid prinder gwragedd cymwys o ran doethineb, cymeriad, a gras at hynny, eithr am na chymhellwyd yr eglwysi i roi’r lle dyladwy iddynt.’⁵¹ Ni chafodd Clara Novello ei hethol i unrhyw swydd yn y capel, ond oherwydd ei dawn ddigamsyniol fel cantores a chyfeilyddes a chan fod cerddoriaeth yn ffordd dderbyniol i ferched eu hamlygu eu hunain yn y pau cyhoeddus, fe chwaraeodd rôl mwy amlwg na’r rhan fwyaf o fenywod ei hoes ac mae *The Life I Have Loved* yn gyfraniad annisgwyl o ddifyr i hanes capeli Cymraeg Caerdydd.

Mae ail bennod y gyfrol, sef y bennod gyntaf i drafod bywyd yr awdur ei hun, yn agor gyda golygfa ddramatig sy’n gosod y Gymraeg ar flaen y llwyfan:

“Clara Novello.”

“Beth yw[’]r enw?” (“What is the name?”) This question came for the second time, in an incredulous tone from my great-grandfather, the Rev. William Evans of Tonyrefail, who was officiating at my christening, and felt sure he had not heard aright.

“*Clara Novello*”, my father repeated. I was hastily handed back sans ceremony.

⁵¹ Thomas Davies, *Dinas Caerdydd a’i Methodistiaeth Galfinaidd* (Caerdydd: William Lewis, 1927), t. xx.

With a stern frigid look, my great-grand-father faced the congregation, which up until then, with the exception of disapproving relatives, had only expected the usual well-rehearsed ceremonials; and the voice that earned for him the name of “Silver Trumpet of the South” pealed forth:

“Never will I christen a child with such a *Heathen* name!”

Bethania Chapel, Loudoun Square, Cardiff, was crowded to the door that Sunday

...⁵²

Mae parodrwydd Clara Novello i arddel y Gymraeg o’r cychwyn cyntaf yn drawiadol yma. Er mai Saesneg yw iaith y traethu, ar ddechrau bywyd Clara rhaid i’r iaith honno aros ei thro gan mai’r enw Eidalaidd ‘Novello’ a’r ebychaid Cymraeg ‘Beth yw[’]r enw?’ sy’n hawlio’r sylw ar ddechrau’r naratif. Lleolir yr olygfa – na allai Clara fod wedi ei chofio ei hun, wrth gwrs – yng nghapel Bethania ar Loudoun Square, yng nghanol yr ardal a fyddai’n ddiweddarach yn cael ei galw gan rai (gan gynnwys Alun Llywelyn-Wiliams) yn Tiger Bay ond yr oedd y Cymry’r cyfnod yn cyfeirio ati fel y Docs.⁵³

Golygfa o wrthdaro crefyddol a diwylliannol sydd yma, rhwng y patriarch William Evans (1795–1891) a’i anfodlonrwydd ynghylch yr enw Clara Novello a’i gysylltiadau Catholig (‘heathen’ ym marn yr hynafgwr) ar y naill law, a thad Clara, a oedd wedi ymserchu yn llais y soprano o dras Eidalaidd, Clara Novello (1818–1908), ac a oedd am drosglwyddo’r

⁵² LIHV, t. xx.

⁵³ Ar hanes y Gymraeg yr ardal dociau Caerdydd, gw. Simon Brooks, ‘Tiger Bay a’r Diwylliant Cymraeg’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2008* (2009), 198–216.

cariad cerddorol hwnnw i'w ferch, ar y llaw arall.⁵⁴ Ar yr wyneb, dyma wrthdaro rhwng culni anghydfurfiaeth Gymraeg a chosmopolitanrwydd – neu efallai Seisnigrwydd – newydd cenhedlaeth iau o Gymry Caerdydd. Ond camddehongliad fyddai hynny. Mae Clara Novello a'i thad Jacob (a ddefnyddiai weithiau'r ffugenw 'Arthur Farfog') yn para'n driw i'r capel a'r Gymraeg, ac o safbwynt 1940 mae Clara Novello yn gallu edrych yn ôl ar yr elfennau mwy ceidwadol yn ei magwraeth gyda chyfuniad o hoffter a hiwmor. Mewn man arall, er enghraifft, mae'n sôn am hen ewythr iddi yng nghapel Bethania a chwifiai hances yn yr awyr pan fyddai'n cyffroi wrth wrando ar y pregethwr, ac a fyddai wedyn yn ei gosod dros ei wyneb wrth i'r bregeth gyrraedd ei phenllanw. Un tro, fe ddefnyddiodd yr hances i ddifffodd lamp olew a fuasai'n llosgi'n rhy chwyrn. Pan ddaeth uchafbwynt y bregeth, aeth yr hances at ei wyneb fel arfer gan ei bardduo a'i adael yn ddu fel 'minstrel' (gan ein hatgoffa, wrth gwrs, o rai o ddisgyrsiau hiliol y cyfnod).⁵⁵ Ym mharagraff olaf yr hunagofiant, wrth iddi ddychmygu ei marwolaeth ei hun, mae Clara Novello yn dychwelyd at ei gwasanaeth bedydd gyda dogn arall o hiwmor: 'But all the precious love that has passed on is there waiting for me, and when my time comes I shall go gladly "home". Dear old great-grandfather may get a shock when my "heathen name" is announced, but Jacob Davies will take me in his arms again, as he did when he bestowed my name.'⁵⁶

⁵⁴ Ar y Parch. Williams Evans, Tonyrefail ('Cloch Arian y De'), gw. ysgrif Gomer M. Roberts yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1953), t. xx [hefyd ar gael ar-lein: <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-WIL-1795>, cyrchwyd 1 Mai 2020].

⁵⁵ LIHV, t. xx.

⁵⁶ LIHV, t. xx.

Testun arall sy'n perthyn i'r dosbarth hwn, er nad mewn ffordd mor daclus, yw cofiant y bardd a'r Archdderwydd Edgar Phillips ('Trefin', 1889–1962) a luniwyd gan Brinley Richards ar gais Trefin ei hun.⁵⁷ Ganed Trefin yn y pentref o'r enw hwnnw yn Sir Benfro, ond yn sgil colli ei fam ac ail briodas ei dad fe symudodd y teulu i Gaerdydd a derbyniodd gyfran helaeth o'i addysg yno yn ardal Grangetown. Mae'r cofiant yn destun a luniwyd dan amgylchiadau anarferol. Lluniasai Trefin ddau hunangofiant, y naill wedi iddo golli ei wraig gyntaf yn 1943 a'r llall wedi iddo gyrraedd oed yr addewid, ac yn amlwg roedd wedi bwriadu eu cyhoeddi. Ond fel y noda Richards ei hun:

Ni ellid eu cyhoeddi fel yr oeddynt, ac ymhlith ei bapurau yr oedd llythyr oddi wrth gyhoeddwr adnabyddus yn datgan eu gofid am eu hanallu i gyhoeddi'r hunangofiant olaf am nad oedd digon o bersonoliaeth yr awdur ynddo, – a'r nesaf peth i ddim am ei brofiadau dyfnaf a'r argyhoeddiadau a'i gwnaeth yr hyn ydoedd. Awgrymwyd dileu'r cyfeiriadau canmoliaethus at bersonau cysylltiedig â'r Eisteddfod. Yr oedd ei farn am rai o'r brodyr hyn wedi newid yn ddirfawr yn ystod ei dymor fel Archdderwydd.

Defnyddiwyd yr hunangofiant yn unig fel ffynhonnell i nifer o ffeithiau a welir yn y bywgraffiad hwn. Yr oedd ei bapurau eraill a'i lyfrau nodiadau yn llawer mwy diddorol.⁵⁸

Testun a luniwyd yn y trydydd person yw *Cofiant Trefin*, felly, ac nid yw'r gwaith yn caniatáu i'r darlennydd ragdybio mai'r un yw'r awdur, yr adroddwr a'r prif gymeriad, fel sy'n wir mewn hunangofiant arferol.⁵⁹ Ond fe luniwyd y cofiant i raddau helaeth ar sail dau hunangofiant ac ar adegau mae Richards yn caniatáu inni glywed llais Trefin yn y person

⁵⁷ Brinley Richards, *Cofiant Trefin* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1963) [= CT].

⁵⁸ CT, t. xx.

⁵⁹ Gw. Anderson, *Autobiography*, t. 2–3.

cyntaf. Felly nid cwbl afresymol yw trafod *Cofiant Trefin* yng nghyd-destn hunangofiannau dinesig Caerdydd.

Mewn rhai ffyrdd, nid oedd sefyllfa'r iaith ar aelwyd Trefin yn annhebyg i honno yng nghartref Alun Llywelyn-Williams yn y Rhath: 'Er mai Cymraeg oedd mamiaith ei dad, Saesneg gan amlaf oedd iaith yr aelwyd oddigerth pan alwai ymwelwyr Cymraeg'. Ond yr oedd Cymraeg y tad 'wedi rhydu am iddo fod ar fordeithiau hir', ac yn fwy na hynny – ac yn gwbl groes i'r rhieni eraill a drafodir yn y cofiannau eraill dan sylw – yr oedd yn elyniaethus i'r Gymraeg ac ni welai na diben na dyfodol iddi. Saesneg a siaradai â Trefin, a dim ond wedi i hwnnw ennill Cadair Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 1933 y dechreuodd y ddau siarad Cymraeg â'i gilydd yn rheolaidd.⁶⁰ Gwaeth os rhywbeth oedd agwedd ei lysfam at yr iaith; gwnaeth hithau 'ei gorau glas i ddigalonni'r llysfab rhag mentro i'r bywyd Cymraeg'.⁶¹ Ond fe ymserchodd Trefin yn y Gymraeg dan adain ei athro ysgol John (yn ddiweddar 'Syr John') Rowlands (1877–1941) yn ysgol elfennol Ninian Park ar Sloper Road yn Grangetown.⁶² Bu'n rhaid iddo guddio ei ddiddordeb ac yn wir yr amser a dreuliai ar y Gymraeg rhag ofn digio ei rieni.

O'i ystyried fel naratif ieithyddol mae cofiant Trefin yn anarfeol – nid yn aml y mae plentyn i rieni gwrth-Gymraeg a fynnai siarad Saesneg ar yr aelwyd yn dod yn Brifardd ac yn Archdderwydd. Ond roedd y profiad hwnnw o gael magwraeth gan rieni Cymraeg na fynnent siarad Cymraeg mor gyffredin fel nad oedd bron yn norm mewn sawl rhan o Gymru yn y

⁶⁰ CT, t. xx.

⁶¹ CT, t. xx.

⁶² Arno, gw. ysgrif Thomas I. Ellis yn *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1970), t. xx [hefyd ar gael ar-lein: <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-ROWL-JOH-1877>, cyrchwyd 1 Mai 2020].

cyfnod hwn. Wrth reswm, anaml y byddai profiadau felly yn cael sylw mewn cofiannau Cymraeg. Mae i'r cofiant anarferol ac anwastad hwn werth sylweddol.

Naratifau ieithyddol ar waith

Wrth ystyried *Tyfu'n Gymro a Gwanwyn yn y Ddinas* a hefyd *The Life I Have Loved a Cofiant Trefin*, rwyf eisoes wedi nodi neu gyffwrdd â rhai o nodweddion yr hyn yr wyf yn ei alw'n 'hunangofiannau ieithyddol'. Mae blaendirio elfennau ieithyddol yn elfen amlwg ynddynt, wrth gwrs. Ond gellir adnabod elfennau eraill sy'n nodweddiadol o'r *genre*. Mae disgwrs y gweithiau hyn yn gweithio i leoli'r gwrthychau mewn gofodau penodol iawn sydd naill ai ar y tu mewn neu y tu allan i'w cymunedau ieithyddol. Mae Clara Novello ac Elvet Thomas wedi eu lleoli'n glir oddi mewn i gymunedau Cymraeg sy'n ffurfio rhan helaeth o adeiladwaith teuluol a chymdeithasol eu bywydau. Fel y nodwyd eisoes, nid yw hynny'n golygu eu bod yn nodweddiadol neu'n gynrychioladol o'r cymunedau hynny. Ond mae Trefin a Alun Llywelyn-Williams ar y tu allan. Yn achos Trefin mae wedi ei alltudio gan agweddau gwrthnysig ei rieni: ei lysfam a hefyd ei dad na welai 'unrhyw ddyfodol i'r Gymraeg, a'i amcan, yn hollol gydwybydol, oedd nacáu i'w fab wastraffu ei amser i ddysgu Cymraeg'.⁶³ Gan hynny, os yw am ymwneud â'i gymuned ieithyddol ei hun, mae'n rhaid i Trefin wrthryfela. Byddwn yn dadlau bod y gwrthryfela hwn – y weithred o groesi'r ffiniau a greir dan ddisgyrsiau ieithyddol – yn rhan sylfaenol o naratifau ieithyddol. Yn achos Trefin, mae'r llanc yn diflasu ar fynychu'r capel Saesneg a bennir gan ei rieni ac mae'n mynd 'i grwydro dociau Caerdydd i edrych am gapel Cymraeg'.⁶⁴ Mae anwybyddu awdurodd rhieni a mynd i chwilio am yr hyn a waherddir ganddynt yn y dociau yn *trope* ystrydebol am

⁶³ CT, t. xx.

⁶⁴ CT, t. 31.

borthladdoedd megis Caerdydd. Yn wir, sonia Llywelyn-Williams am fynd gyda'i ffrindiau 'i chwilio rhyfeddodau'r ddinas, i lawr i'r dociau i weld y llongau'n cael eu llwytho a'u dadlwytho a mentro'n wyladurus i ganol peryglon anhysbys ond atyniadol *Tiger Bay*'.⁶⁵ Ond mae naratif Trefin yn troi ystrydebau o'r fath ar eu pennau a daw addoli yn Gymraeg yng nghanol cymuned fwyaf amlethnig Caerdydd – yr ystyrid gan eraill yn fangre beryglus a difoesau – yn weithred o wrthryfel yn erbyn awdurdod a dyheadau Saesneg ei rieni a hefyd yn erbyn dyheadau ehangach cymdeithas ei oes. Ac wrth wneud hynny, mae Trefin yn troedio'r un gofod daearyddol ac ieithyddol ag y gwnâi Clara Novello Davies wrth fynychu capel Bethania'r Docs rai degawdau ynghynt. Er mai newyddian i'r ddinas yw Trefin, mae ei gofiant yma'n cyfrannu at balimpset ieithyddol y Gaerdydd Gymraeg.

Cryfheir y berthynas destunol rhyngddo a Clara Novello ymhellach wrth inni glywed am hanes ei enwi yntau:

Adeg geni Trefin arhosai'n eu cartref ffrind mynwesol i'r tad, sef Sgandinafiad o'r enw Oscar a chynigiodd hwnnw ddeg punt i'r tad pe galwai ei fab yn Oscar.

Oherwydd gwrthwynebiad Mamgu Phillips, fe'i galwyd yn Edgar ar ôl tad neu frawd y morwr yma. Gwrthododd y cofrestrydd dderbyn yr enw Bateman fel enw canol. Pan ddaeth y plentyn i oed ystyriol, datganodd ei farn ar ei enw bedydd– “Ffieiddbeth a fu'r enw Saconaid hwn i un a oedd fel fi â chryn dipyn o'r Cymro yn fy anian.” Nid oedd am i neb ei alw'n Edgar.⁶⁶

⁶⁵ GDd, t. 31. Ar hanes y Gymraeg yn ardal y dociau, gw. Simon Brooks, 'Tiger Bay a'r Diwylliant Cymraeg', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2008* (2009), 198–216.

⁶⁶ CT, t. xx.

Eto, cawn Trefin yn gwrthyfela yn erbyn Seisnigrwydd, y tro hwn am fod yr enw Sgandinafaidd Oscar wedi ei wrthod iddo gan fam ei dad. Fe'n hatgoffir hefyd o gyfeiriad Elvet Thomas at hen ewythr iddo, Richard Reynhardt o Memel, Prwsia a briododd Gymraes o Abergwaun a magu eu plant yn Gymry Cymraeg.⁶⁷ Gall Clara Novello ar y llaw arall, ymfalchïo yn ei henw bedydd a'i arlliw Eidalaidd. Yn y capel Cymraeg yn nociau Caerdydd, ym mreichiau ei thad, nid oedd enw o'r fath yn fygythaid i'w hunaniaeth. Er bod eu (hunan)gofiannau ar adegau yn lleoli'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig traddodiadol, mae Clara Novello a Trefin yn ymwrthod â chyfyngu'r Gymraeg i'r fath leoedd ac yn hawlio iddi ei lle fel iaith ddinesig.

Mae Alun Llywelyn-Williams ar y tu allan am resymau eraill. Yn gyntaf, fel y gwelsom, roedd ei afael ansicr – 'go wantan' yw ei ymadrodd ef– ar y Gymraeg yn rhwystro iddo, yn enwedig yng nghyd-destun y capel. Ond nid oedd ar ei ben ei hun yn ei anallu ieithyddol:

Wrth feddwl, roedd yno eraill wrth gwrs o blith aelodau'r capel yn yr un cyflwr â mi, ac yn rhyfedd iawn 'doeddyn-nhw ddim i gyd yn gyfoedion â mi. 'Roedd rhai o'r aelodau hŷn nad oedd ganddyn nhw ddim Cymraeg, ond na fuasen-nhw byth wedi breuddwydio mynd i gapel Saesneg, gymaint oedd eu teyrngarwch i'r gymdeithas yn y Crwys.⁶⁸

Byddai rhai o'r aelodau hŷn hyn yn gyfoeswyr i Clara Novello ac efallai yn gydnabod iddi, gan ystyried y perthynent i'r un enwad yn yr un ddinas. Ond mae Llywelyn-Williams wedi ei leoli, os nad yn gyfan gwbl tu allan i'w gymuned sosioieithyddol ei hun, yna o leiaf ar ei chyrion. Mewn gwrthgyferbyniad, wrth drafod ei brofiad yn yr ysgol uwchradd mae ganddo ymdeimlad llawn o berthyn i'r byd Saesneg heb fod angen rhoi ystyriaeth i wahaniaethau

⁶⁷ TG, tt. 55–7.

⁶⁸ GDd, tt. 25–6.

ieithyddol nac yn wir i statws israddol y Gymraeg yn y cwricwlwm (yn gwbl groes i agwedd Elvet Thomas):

'Rwy'n dragwyddol ddiolchgar am y profiad hwnnw, nid yn gymaint oherwydd yr addysg ffurfiol a gefais yno – 'roedd honno, o fewn terfynau – yn ddi-fai ddigon, am a wn i – ond oherwydd y cyfle a roddodd i mi i gymysgu am y tro cyntaf â llu o fechgyn o'r un oedran â mi a'm dysgodd nad oedd gwahaniaeth dosbarth a chefnidir a chrefydd ddim yn rhwystr yn y byd rhag magu ffrindiau da.⁶⁹

A hyd yn oed wrth dreulio amser mewn cymuned Gymraeg y Nyffryn Clwyd, nid yw'r iaith yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddo, o leiaf nid o bersectif yr oedolyn sy'n edrych yn ôl. Er ei waethaf, ni all gofio i sicrwydd pa iaith a siaradai yno:

Cymry oeddem ni, wrth gwrs. Ond beth am yr iaith? Ai Cymraeg oedd ein hiaith ni yno ym Mhwll-glas, tybed? Rhaid fy mod tua'r pump neu'r chwech oed pan euthum yno gyntaf ar wyliau, ac yn bedair ar ddeg efallai pan fuom yn Nyffryn Clwyd am y tro olaf. Doedd fawr o raen ar hynny o Gymraeg a fedrwn yng Nghaerdydd, mi wn, yn nyddiau'r ysgol. A Saesneg a siaradem ni'r plant a'n gilydd yn ddieithriad gartref. 'Dydw i'n cofio dim, a dweud y gwir, pa iaith a arferid gennym ym Mhwll-glas. Mae'n annichon credu nad Cymraeg oedd iaith yr hogiau. 'Allaf i ddim meddwl rywsut am Emrys y Post rhadlon, a Goronwy'r Graig, a John Edward a ganai'r organ, a'r cyfaill a bwdai ar y cae criced, ond yn sŵn ac yng nghefnidir yr iaith honno [...]⁷⁰

Hyd yn oed wrth leoli'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig yn y Fro Gymraeg, roedd yr iaith yn dal i beri penbleth i Llywelyn-Williamss.

⁶⁹ GDd, t. 12.

⁷⁰ GDd, t. 12.

Trobwyntiau ieithyddol

Wrth drafod *Cofiant Trefin*, cyfeiriwyd at y modd y mae'n ymagosáu at y Gymraeg fel enghriaft o wrthyfel. Byddwn yn dadlau bod achosion o'r fath yn gwbl nodweddiadol o hunangofiannau ieithyddol, a bron â bod yn angenrheidiol iddynt. Wrth ystyried hyn ymhellach, hoffwn dynnu ar derminoleg sydd wedi ei benthyg o faes sosioieithyddiaeth yr iaith Gatalaneg. Lluniwyd y cysyniad o *muda* yn wreiddiol gan Joan Pujola ac Isaac Gonzàlez i gyfeirio at 'a change of linguistic repertoire in one's life trajectory'.⁷¹ Wrth ddatblygu'r cysyniad, tynasant ar fath penodol o ysgrifennu bywyd: '[b]ecause our argument relies fundamentally on life-history accounts, we have felt the need to coin a new term, linguistic '*muda*' (pl. *mudes*, pron. [muðəz]), to name the specific biographical junctures where individuals enact significant changes in their linguistic repertoire. We use this neologism to express changes in language use that are important for people's self-presentations in everyday-life.'⁷² Nid testunau llenyddol oedd y 'life-history accounts' hyn, wrth gwrs, ond yn hytrach naratifau hunangofiannol cymharol fyr a gasglwyd ar gyfer pwrpas eu hastudiaethau.⁷³ Er hynny, gellid dadlau bod eu canfyddiadu yn berthnasol i fathau

⁷¹ Joan Pujola ac Isaac Gonzàlez, 'Linguistic "*mudes*" and the de-ethnicization of language choice in Catalonia', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16:2 (2013), 140. Mae'r cysyniad wedi ennill ei blwyf ym maes polisi iaith, ac mae'n ymddangos ym mholisi Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* (2017) wedi ei ddiffinio fel 'addasiadau mewn ymddygiad ieithyddol', t. 17.

⁷² Pujola a Gonzàlez, 'Linguistic "*mudes*"', 139.

⁷³ Ar y cysyniad o 'linguistic autobiographies' ym maes sosioieithyddiaeth ac ieithyddiaeth gymwysedig, gw. Aneta Pavlenko, 'Narrative Analysis', yn Li Wei a Melissa G. Moyer (gol., *The Blackwell Guide to Research Methods in Bilingualism and Multilingualism* (Oxford:

eraill o ‘ysgrifennu bywyd’ hefyd. Yn yr un modd, mae Jacqueline Urla yn cyfeirio at ‘linguistic makeovers or “mudes” in which individuals choose to adopt a new linguistic habitus and repertoire when they enter a new school or labor market, get married, or have children, [which] are destabilizing the heretofore taken-for-granted understanding of linguistic identity as monolingual and enduring over the course of a lifetime’.⁷⁴ Cyfeiria Michael Newman a Mireia Trenchs-Parera at *mudes* fel ‘sifftiau bywyd’ ieithyddol (‘life-shifts’) tra bo Pujolar a Maite Puigdevall yn sôn amdanynt fel ‘(often reversible) variations in social performance’.⁷⁵ Mae’r cysyniad o’r *muda* fel newidbwynt neu drobwynt ieithyddol yn un defnyddiol inni yng nghyd-destun ein hunangofiannau dinesig. Ond yn yr achos hwn, hoffwn ymestyn peth ar y cysyniad i gynnwys pwyntiau allweddol mewn bywyd sy’n *rhwystro* newid ieithyddol a fyddai fel arall yn anorfod neu o leiaf yn ddigwyliedg.

Yn achos Elvet Thomas a’r glatsien a gafodd am siarad Cymraeg, nid newid iaith a awgrymir yn gymaint â newid yn agwedd tuag at iaith sydd yn ei dro yn cael effaith sylfaenol ar ymddygiad. Gellir tynnu llinell sy’n cysylltu’r ergyd â sylweddoliad Elvet fod gan y

Blackwell, 2008): t. 319: ‘a subtype of personal experience narratives; they focus on the languages of the speaker and discuss how and why these languages were acquired, used or abandoned. Linguistic autobiographies are elicited through interview or questionnaires.’

⁷⁴ Jacqueline Urla, ‘Catalan in the twenty-first century’, *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16:2 (2013), 178.

⁷⁵ Michael Newman a Mireia Trenchs-Parera, ‘Language Policies, Ideologies and Attitudes in Catalonia. Part 1: Reversing Language Shift in the Twentieth Century’, *Language and Linguistics Compass*, 9:7 (2015), 291; Joan Pujolar a Maite Puigdevall, ‘Linguistic *mudes*: how to become a new speaker in Catalonia’, *International Journal of the Sociology of Language*, 231: (2015), 167.

Gymraeg ei gelynyon, ac wedyn â'i ddewis o yrfa, ac yn wir â'r effaith a gafodd hynny ar unigolion nad oeddent wedi eu geni adeg y glastien wreiddiol. Mae *muda* Elvet Thomas bron â bod yn *muda* i gymuned ieithyddol ehangach Caerdydd. Yn achos, Trefin, gellir cyfeirio at ei anufudd-dod tawel yn mynychu oedfaon Cymraeg yn y dociau ac yn astudio'r Gymraeg gyda John Rowlands yn yr ysgol. Ond mae naratif y cofiant yn cyflwyno digwyddiad penodol arall sy'n effeithio ar ymddygiad ieithyddol y bachgen ifanc. Coets reilffordd yw'r gofod ar gyfer y trobwynt hwn, a'r Trefin ifanc wedi ei anfon o Gaerdydd i fynd i aros at berthnasau yn y gorllewin:

[...] fe'i rhoddwyd gan ei lysfam yng ngofal rhyw "beunes dordyn, falch" ar y trê

[...] Pan geisiai Trefin siarad Cymraeg â hi yn y trê, fe droes yn ffyrnig ato gan

ddweud wrtho am siarad Saesneg. Yr oedd bonheddwr yn cyd-deithio â hwy a phan

glywodd y siarad rhwng y ddau, gofynnodd i Drefin eistedd yn ei ymyl [...] Erbyn

cyrraedd Caerfyrddin yr oedd "y beunes" yma wedi dechrau siarad Cymraeg. Gwnaed

argraff annileadwy ar y crwt ifanc.⁷⁶

Dysgwn maes o law – yn anorfod bron – mai O. M. Edwards (awdur *Clych Atgof*, un o hunangofiannau mwyaf dylanwadaol y Gymraeg) oedd y bonheddwr dan sylw, ac ef a droes y daith gorfforol yn un ieithyddol.⁷⁷

Hyd yn oed yn achos *The Life I Have Loved*, y testun sydd – yn ei gyfanrwydd – yn ymwneud leiaf â'r Gymraeg, y mae trobwynt ieithyddol yn digwydd. Mae'n drawiadol fod

⁷⁶ CT, t. xx.

⁷⁷ CT, t. xx.

Clara Novello yn dangos cryn ymwybyddiaeth ieithyddol yn wyneb y ffaith nad oedd yn arferol yn yr 1860au a'r 1870au i rieni fagu eu plant yn Gymraeg yng Nghaerydd.⁷⁸ Deuai rhieni Clara o'r cefn gwlad Cymraeg ei hiaith a oedd o fewn pellter cerdded o Dreganna: hannai ei thad o fferm Tregoches neu Dregochas ym mhlwyf Sain Ffagan a'i mam o Barc Coed Marchan (neu 'Machen') ym mlwyf Llansanffraid-ar-Elái. Byddai'r Clara ieuanc yn treulio Sadyrnau a gwyliau gyda'i neiniau a'i theidiau gan gerdded adref, a chael ei chario ar ysgwyddau ei thad pan oedd wedi blino. Yn wir, mae Clara Novello yn adrodd gyda chryn ddiddanwch sut y bu i'w mam fynnu cadw ei thad gartref am fisoedd cyntaf eu priodas i sicrhau bod ei Saesneg o safon digon uchel; roedd rhieni ei mam yn ystyried ei bod wedi priodi rhywun o statws cymdeithasol sylweddol is ac roedd bellach ddisgwyl i'w ymddygiad ieithddol gydymffurio â disgwyliadau teulu trwyadl ddwyieithog ei wraig.⁷⁹ Dwyieithrwydd, felly, oedd y norm yn nheulu Clara Novello ac – fel yn achos Elvet Thomas ac Alun Llywelyn-Williams – bu'n rhaid wrth benderfyniad ymwybodol o du ei rheini i'w magu'n Gymraes Gymraeg, rhywbeth a ddeuai'n gynyddol anodd wedi iddi ddechrau yn yr ysgol (un o'r adegau mwyaf arwyddocaol mewn bywyd yng nghyd-destun y cysyniad o *muda*):

Welsh was the only language I knew before starting in the seminary, as it alone was spoken by both parents to me. They wisely understood that I would pick up English soon enough outside the home circle, and took care to instil a knowledge and love of our own beautiful language in my earliest years, hoping that when I got older it would

⁷⁸ Cymharer awgrym Owen John Thomas mai oddeutu'r 1870au y dechreuodd trwch rhieni Cymraeg Caerdydd beidio â throsglwyddo'r iaith i'w plant, 'Yr Iaith Gymraeg yng Nghaerdydd c.1800–1914', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Iaith Carreg fy Aelwyd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), tt. 193–4.

⁷⁹ LIHL, t. xx.

not depart me. All my relatives were warned to speak in the vernacular when I was present, and I can now see the wisdom in this, but when I first went to school I was very unhappy, feeling at a great disadvantage with those other Welsh children who spoke English only. I still think it rather an affectation when one has a beautiful language of one's own, as in the Scottish Highlands and Eire, as well as Wales, that children should not be taught to be bilingual, and certainly they need not feel ashamed of their mother tongue.⁸⁰

Yma, clywn lais oedolyn tua diwedd ei hoes yn edrych yn ôl ac yn rhesymoli ymddygiad a theimladau'r plentyn ieuanc, er bod awgrym yma mai Saesneg oedd iaith arferol llawer o'r teulu yn eu hymwneud beunyddiol â'i gilydd.

Ond mae Clara Novello hithau yn adrodd am ddigwyddiad tyngedfennol o ran ei ffurfiannaeth ieithyddol. Enillodd wobr yn yr ysgol am wnïo a brysio adref i gyhoeddi'r ffaith, gan wneud hynny'n Saesneg. Rhannodd y newydd da â'i mam yn gyntaf – roedd hithau gyn hapused â Clara ei hun. Wedyn daeth ei thad adref:

“Oh, dad, aren't clever? I won first prize for fancy work!” he just looked blankly at me, saying: ‘Nid wyf i ddim yn deall gair a ddwedi’ (“I do not understand a word you say!”) I felt so sensitive about this, thinking how terrible my English must have sounded to his ears, that during his long life I never again spoke but in Welsh to father, though he probably meant nothing more than to take a little wind out of my sails.⁸¹

⁸⁰ LIHV, t. xx.

⁸¹ LIHL, t. xx.

Pennir ymddygiad oes gan y digwyddiad hwn – o leiaf o fewn fframwaith yr hunangofiant – ac fe'i hystyrid yn ddigon pwysig i'w gyflwyno i gynulleidfa Saesneg dri chwarter canrif yn ddiweddarach.

Yn achos Alun Llywelyn-Williams, ei dad – er gwaethaf yr anghytuno a'r diffyg dealltwriaeth a fuasai rhyngddynt ar y pwnc – a oedd yn gyfrifol yn y pen draw am newid ei agwedd at y Gymraeg. Wedi brwydro yn erbyn ei fab ac awdurdodau'r ysgol, llwyddodd David Llewelyn Williams yn y diwedd i drefnu bod Alun yn astudio'r Gymraeg yn y chweched dosbarth. Ac yn yr ieithwedd efelyngaidd a welwyd eisoes gan Elvet Thomas, dywed Alun, '[b]u'n foddion tröedigaeth llanc'.⁸² Cyfareddwyd y disgybl gan gwrs a oedd yn gwbl wahanol i'r hyn yr oedd wedi ei ddisgwyl ac wedi ei brofi hyd hynny: cafodd ei gyflwyno 'yn gwbl annisgwyl i gorff o lenyddiaeth y gallwn weld fod ei bethau gorau yn deilwng i'w gosod ochr yn ochr â rhai o brif greadigaethau'r dychymyg mewn llenyddiaethau eraill'.⁸³ Yr hyn a alwai Alun Llywelyn-Williams yn 'dröedigaeth', gallwn ninnau ei alw'n *muda*. Heb y foment hon, ni fyddai'r gyfrol sy'n ei disgrifio erioed wedi bodoli.

Iaith a rhywioldeb

Os yw'r drafodaeth ar hunangofiannau Cymraeg yn brin, prinnach eto yw'r drafodaeth ar ryw a rhywioldeb ynddynt. Ar un lefel, nid syndod hynny – fel y dywed John Burnett am hunangofiannau Saesneg gan unigolion a aned yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, '[s]ex was a taboo subject in most Victorian and Edwardian families, and even in later life when most autobiographies were written, authors would not be

⁸² GDd, t. 61.

⁸³ GDd, t. 61–2.

likely to consider their sexual experiences a proper subject of literary reminiscence'.⁸⁴ Nid yw hon yn thema sy'n codi mewn modd ystyrlon yng ngwaith Elvet Thomas nac yn nghofiant Trefin. Ond mae i'w weld gan Alun Llywelyn-Williams ac yn arbennig gan Clara Novello, y mae ei atgofion yn deillio o gyfnod nad oedd namyn cenhedlaeth yn ddiweddarach na 'Brad y Llyfrau Gleision' (1847).⁸⁵ Yn wir, ni ddengys atgofion Clara Novello unrhyw gyndynrwydd o drafod y ffaith fod y teithiau a'r picniciau a drefnid trwy'r capel yn llawn o gyfleoedd i gyplau ddod i adnabod ei gilydd, boed hynny'n arwain at berthynas barhaol neu beidio. A dengys Burnett fod y cyfleoedd a gynigid gan yr ysgolion Sul, yr eglwysi a'r capeli, i gwrdd â'r 'opposite sex in respectable and approved surroundings' yn nodwedd amlwg o nifer o hunangofiannau Saesneg.⁸⁶

Yn achos *Gwanwyn yn y Ddinas*, fodd bynnag, mae'r drafodaeth am ryw yn digwydd yng nghyd-destun canfyddiad Alun o'i dad a pherthynas y ddau. Wrth gyfeirio at yr hyn a ystyriai yn 'gulni hen-ffasiwn ei sêl grefyddol a dirwestol a'i styfnigrwydd od ynglŷn â'r iaith Gymraeg', mae'n nodi bod 'bwlch' rhwng y ddau, rhywbeth a dderbyniai'r Alun ifanc yn 'ddi-gŵyn ac yn ddigwestiwn'.⁸⁷ Agwedd arall ar y berthyns hon oedd lletchwithdod ei

⁸⁴ Ar drafodaeth ar y pwnc hwn, gw. John Burnett (gol.), *Destiny Obscure: Autobiographies of Childhood, Education and Family from the 1820s to the 1920s* (London: Routledge, 1982), t. 26.

⁸⁵ Ar effaith 'Brad y Llyfrau Gleision' ar awduron benywaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gw., er enghraifft, Jane Aaron, 'Rebels and Reactionaries', *Nineteenth-Century Women's Writing in Wales: Nation, Gender, Identity* (ail argraffiad, Cardiff: University of Wales Press, 2010), tt. 104–131.

⁸⁶ Burnett (gol.), *Destiny Obscure*, t. 262.

⁸⁷ GDd, t. 32.

dad ar faterion rhywiol, a hynny er gwaethaf y ffaith ei fod, yn rhinwedd ei swydd fel meddyg, yn credu'n gryf 'mewn hyfforddi'r ieuainc yn eu ffyrdd yn gynnwys materion rhyw' ac wedi cyhoeddi pamffledyn ar y pwnc i'w ddosbarthu'n gyhoeddus. Ond o ran trafodaeth â'i fab, 'y cwbl a allai ei wneud oedd gwthio copi o'r pamffledyn hwn yn llechwraidd i'm llaw, heb yngan yr un gair a heb fedru edrych yn fy llygaid'.⁸⁸ Mae'n drawiadol mor debyg yw'r ieithwedd yma i'r hyn a ddywedir namyn dau baragraff ynghynt, wrth drafod un o ddulliau'r tad o hyrwyddo'r Gymraeg: 'mi fyddai yn awr ac yn y man yn prynu'n llechwraidd ryw lyfr Cymraeg ac yn dod â'r gyfrol allan ar ganol y gwyliau, dyweder, pan fyddai'n bwrw glaw'.⁸⁹ Daw'r Gymraeg a rhywioldeb ynghyd fel dwy nodwedd sydd o bwys sylfaenol i'r tad ond na allai eu trafod yn ystyrlon gyda'r mab, er bod magu teulu a throsglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd yn ddwy ffordd o sichrau a chynnal ei werthoedd ef at y dyfyddol. Gall Alun Llywelyn-Williams, ac yntau'n dad erbyn ysgrifennu'r atgofion hyn, gydymdeimlo â swildod ei dad. Ond mae hefyd yn ei weld fel enghraifft o'r 'euogrwydd Victorianaidd' ehangach a nodwedddai ei gymeriad.⁹⁰

Fodd bynnag, 'euogrwydd Victorianaidd' yw'r term olaf y byddid yn ei ddefnyddio i gyfeirio at hunangofiant Clara Novello. Mae'r gyfrol yn cynnwys nifer o olygfeydd y mae rhywioldeb yn rhan amlwg ohonynt, a nifer o'r rheini yn ymwneud â'r capel â'i pherthynas â'i gŵr David (neu Dave), aelod arall yn Salem a oedd wedi nodi ei fwriad i'w phriodi pan oedd hi'n dal yn ferch fach. Mewn un anecdot ysgafn, mae Clara Novello yn cyfeirio at berthynas iddi a oedd am briodi gweinidog. Ni allai Clara fynychu'r briodas, ond daeth ei gŵr adref ohoni dan chwerthin ar naïfrwydd y cwpl priod newydd:

⁸⁸ GDd, t. 32.

⁸⁹ GDd, t. 30.

⁹⁰ GDd, t. 32.

Dear Maggie, she was certainly fitted for the position she was to fill as wife to a minister a few years later. I remember, by the way, that Dave, who represented me at their wedding, returned chuckling at the said minister's idea of what would their greatest outing on their honeymoon in London – Madame Tussaud's!⁹¹

Mae Clara hefyd yn barod i drafod ei mis mêl ei hunan, a'i phryderon ar noson y briodas wrth iddi geisio tynnu ei hesgidiau crand, gan ofni y byddai ei gŵr newydd yn agor y drws ar unrhyw foment:

There were in the height of fashion, almost to the knees, and try as I might I just couldn't unfasten those laces with their double knots! And that "stranger", David Davies, has the right to appear at any moment! [...]

"There, there now Lal", and he patted the mound under the clothes consolingly. "I'll take them off for you", and slowly the long black boot stole from cover, and Dave very gently removed them, the while I recovered by childhood trust in him.⁹²

Wrth gyflwyno'r foment dyner hon, mae Clara Novello yn adrodd am weithred arall o enwi sy'n adlais o'r gwasanaeth bedydd:

"Lal" was only one of Dave's names for me, shortened from "Lalla Rookh" that father called me, but "Flanigan" was my name when he loved me most; and "Clara" was what I dreaded to hear from him, as I knew I was going to be censured for something.

⁹¹ LIHL, t. xx.

⁹² LIHL, t. xx.

Wel, “Flanigan” was I during all the happy days spent in London, where we chose more exciting place for enjoyment than Cousin Maggie and her clergyman husband, and Madame Tussaud’s saw us not.⁹³

Mae’r enghraifft arall hon o ailenwi yn arwydd symbolaidd o’r modd y mae’n ymadael ag aelwyd ei thad ac yn ffurfio uned deuluol newydd gyda David. Ond mae hefyd yn gam pellach oddi wrth y Gymraeg – er bod David yn aelod mewn capel Cymraeg mae’n ymddangos mai Saesneg oedd iaith eu perthynas; nid yw Clara yn cyfeirio at ddenyddio’r Gymraeg gydag ef. Roedd y Gymraeg yn arwydd o’i pherthynas â’i thad, fel y gwelir wrth i Clara ffurfio Côr Merched Cymru, gweithred sy’n atgoffa ei thad o’r cyfnod pan fyddai’r Clara fechan yn arwain côr o’i doliau: ‘He looked very gratified, and turning to me, said, but in the homely Welsh we always used together, “Well Clara, your Doll Choir has come to life!” reminding me of my first little choir’.⁹⁴

Wrth gwrs, llais Clara Novello yn 1940 a gawn yn y gyfrol, nid llais y ferch ifanc yn Oes Fictoria. Ac roedd yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa Saesneg fydeang, nid ar gyfer cymdeithas lengar Gymraeg glòs. Ond eto, mae ei pharodrwydd i drafod ei pherthynas gorfforol â’i gŵr, er mewn modd cynnil, yn nodedig. Wrth gyfeirio at ei garwriaeth â’r ferch a ddaeth yn wraig iddo, dywed Llywelyn-Williams yn syml, ‘nid dyma’r lle i adrodd yr hanes hwnnw’.⁹⁵ Ond adroddir am un profiad dadlennol arall yn *Gwanwyn yn y Ddinas* sy’n dod â’r Gymraeg a rhywioldeb ynghyd unwaith eto. Bu i’w dad brynu copi o *Monica* (1930) gan Saunders Lewis, ac wedi darllen digon, ‘mae’n eglur, i’w argyhoeddi nad oedd hi ddim yn gyfrol y gellid ei darllen *en famille*’, fe guddiwyd y gyfrol o olwg y teulu. Ond maes o law

⁹³ GDd, t. 32.

⁹⁴ GDd, t. 32.

⁹⁵ GDd, t. 91.

daeth un o'r plant – Eric, brawd Alun, mae'n debyg – o hyd iddi, ac ym mhen dim yr oeddent yn 'cael blas ar ddarllen Cymraeg am y tro cyntaf, yn y dirgel. Ond 'roeddem-ni'n llanciau bryd hynny'.⁹⁶ Yn eironig, er gwaethaf holl ymdrechion y tad i godi ei fab yn Gymro Cymraeg, y weithred gudd a drygionus hon a gyflwynodd i Alun am y tro cyntaf y cyffro y gellid ymglywed ag ef drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Ond at ei gilydd, anghyffwrdd yw'r berthynas rhwng *rites de passage* rhywiol a *mudes* neu drobwyntiau ieithyddol yn yr hunangofiannau, er y cyswllt amlwg rhwng y ddwy ffenomen.

Diwedd glo

Eu lleoliad yng ngofod dinas Caerdydd sy'n dod â'r awduron hyn ynghyd. Mae'r gweithiau yn amlwg yn ymwneud â'r un lleoliadau, ond nid â'r un profiadau. Magwyd pob un o'r awduron ar aelwyd lle yr oedd barn gref am yr iaith Gymraeg: o'i phlaid yn achos tri ohonynt, ond yn ei herbyn yn achos Trefin. Wrth iddynt adrodd, ddegawdau yn ddiweddarach, am eu prifant a'r ffaith fod y ffin rhwng yr aelwyd a'r byd y tu allan – dinas lle nad oedd y Gymraeg yn ystyriaeth o bwys i drwch ei phoblogaeth – yn mynd yn gynyddol anelwig, roedd yn rhaid wrth ymateb. Ymuno yn efengyliaeth ieithyddol ei rieni a wnaeth Elvet Thomas, gan fodloni ar y gwrthdaro cymdeithasol a ddeuai yn sgil hynny, os nad ei fawrygu. Anwybyddu'r Gymraeg a wnaeth Alun Llywelyn-Williams, at ei gilydd, hyd nes i ymgynabod annisgwyl â'i llenyddiaeth newid cwrs ei fywyd yntau. Symbol o'i pherthynas glòs â'i thad yn fwy na dim oedd y Gymraeg i Clara Novello, rhywbeth y byddai wedi hoffi ei gadw am byth a rhywbeth yr edrychai ymlaen at ddychwelyd ato yn y byd nesaf, ond rhywbeth yr oedd yn siŵr o ymbellhau yn wyneb ei gyrfa lwyddiannus. Ac i Trefin, gwrthryfel ymwybodol yn erbyn ei rieni oedd ymuno â'r gymdeithas Gymraeg. Ond hyd yn

⁹⁶ GDd, t. 30.

oed yn ei achos ef, byddai'r iaith yn y pen draw yn ei ddwyn ef a'i dad ynghyd unwaith eto.

Wrth gwrs, mae llawer mwy i'r testunau hyn na'r newidiadau neu'r *mudes* mewn ymddygiad ieithyddol. Ond heb hynny, ni fyddai'r naratifau hyn am fywydau Cymraeg Caerdydd yn gallu eu cynnal eu hunain yn y lle cyntaf.

DYLAN FOSTER EVANS

CAERDYDD